

Sut mae oedolion yn manteisio ar wasanaethau gofal a chymorth yn Rhondda Cynon Taf

Dechrau

Rydw i, neu mae rhywun rydw i'n ei adnabod, angen gofal a chymorth

Byddwn ni'n ystyried eich gofynion o ran cyfathrebu a hygyrchedd

Gwasanaeth Gwybodaeth:
Byddwn ni'n cynnig mynediad ichi at wybodaeth am wasanaethau gofal a chymorth

- [Swefan RhCT](#)
- Ymateb ar Unwaith - 01443 425003
- Canolfannau iBobUn
- Cyhoeddiadau

Os ydych chi'n hapus â'r wybodaeth rydych chi wedi'i derbyn, does dim angen cymryd camau pellach

Eiriolaeth:
Hoffech chi gymorth i fanteisio ar wasanaethau?
Fe allai eiriolwr weithredu ar eich rhan.

Diogelu:
Os yw'n fater yn ymwneud â diogelu, bydd gweithdrefnau diogelu yn cael eu dilyn

Rwy angen cymorth pellach

Cyngor a Chymorth:
Byddwn ni'n trafod yr hyn sy'n bwysig ichi ac yn cytuno ar ddeiliant.
Mae'n bosibl y byddwn ni'n defnyddio'r [Offeryn Cymwysedd Cenedlaethol](#).

Cyngor:
Gellir diwallu deilliannau drwy ddarparu cyngor. Byddwn ni'n eich arwyddbostio chi i wasanaethau eraill yn dilyn ein sgwrs. Os oes angen, byddwn ni'n rhoi copi ichi o'r hyn rydyn ni wedi cytuno arno

Cymorth:
Gellir diwallu deilliannau drwy ddarparu cymorth. Byddwn ni'n eich atgyfeirio at unigolion a all roi cymorth ichi fanteisio ar weithgareddau, grwpiau a gwasanaethau yn eich cymuned. Os oes angen, byddwn ni'n rhoi copi ichi o'r hyn rydyn ni wedi cytuno arno

Gwasanaethau Ataliol:
Gellir diwallu deilliannau drwy fanteisio ar amrediad o wasanaethau ataliol gan ein Gwasanaethau Tymor Byr (e.e. addasiadau, offer cymunedol, gwasanaethau synhwyrol). Os oes angen, byddwn ni'n rhoi copi ichi o'r hyn rydyn ni wedi cytuno arno

Os ydych chi'n hapus â'r gwasanaethau cyngor, cymorth ac ataliol rydych chi wedi'u derbyn ac os ydych chi wedi cytuno ar ddeiliant, does dim angen cymryd camau pellach.

Mae gennyf fi anghenion sy'n gymwys ac rwy angen asesiad

Byddwn ni'n cynnal asesiad i nodi eich anghenion o ran gofal a chymorth.

Byddwn ni hefyd yn gofyn ichi lenwi asesiad ariannol i bennu eich cyfraniad tuag at wasanaethau gofal a chymorth

Rwy angen cynllun gofal a chymorth i ddiwallu fy anghenion sydd wedi'u nodi

Adolygu/Ail-asesu:
Byddwn ni'n adolygu eich cynllun gofal a chymorth yn y manau cytûn
Os ydy'ch amgylchiadau'n newid, byddwn ni'n ail-asesu'ch anghenion

Cynllun Gofal a Chymorth:
Byddwn ni'n llunio cynllun gofal a chymorth i gynnig gwasanaethau gofal a chymorth i ddiwallu'ch anghenion